# Beth i'w wneud os ydych chi angen cymorth yr heddlu ar frys trwy’r gwasanaeth 999, ond na allwch chi siarad




*Os ydych chi mewn sefyllfa o argyfwng ac angen cymorth yr heddlu, ond yn methu siarad, mynnwch Gael Eich Clywed a rhoi gwybod i’r cysylltydd 999 bod eich galwad yn un ddilys.*

## PAN FYDDWCH YN FFONIO 999

Mae pob galwad 999 yn cael eu cyfeirio at ganolfannau galwadau a bydd cysylltwyr BT yn eu hateb. Byddant yn gofyn i chi pa wasanaeth ydych chi angen. Os na ofynnir am wasanaeth ond y clywir rhywbeth amheus trwy gydol y broses, bydd cysylltwyr BT yn eich cysylltu i rywun sy'n ateb galwadau i'r heddlu.

## OS FFONIWCH 999 O FFÔN SYMUDOL

Mae’n well siarad gyda’r cysylltydd os gallwch bob tro, hyd yn oed trwy sibrwd. Efallai y bydd yn gofyn i chi beswch neu daro’r allweddi ar eich ffôn mewn ymateb i gwestiynau.

Os byddai gwneud sŵn yn creu perygl i chi’ch hun neu rywun arall ac nad yw'r cysylltydd BT yn gallu penderfynu a oes angen gwasanaeth brys, bydd eich galwad yn cael ei throsglwyddo i’r system Ateb Tawel.

Mae’r Ateb Tawel yn system heddlu a ddefnyddir i hidlo nifer o alwadau 999 damweiniol neu ffug. Mae hefyd yn bodoli i helpu pobl nad ydynt yn gallu siarad, ond sydd wir angen cymorth yr heddlu.

Byddwch yn clywed neges awtomataidd gan yr heddlu, sy'n parhau am 20 eiliad ac yn dechrau gyda ‘rydych chi wedi eich cysylltu i'r heddlu’. Bydd yn gofyn i chi wasgu 55 i gael eich cysylltu i reolaeth galwadau'r heddlu. Bydd eich cysylltydd BT yn aros ar y lein ac yn gwrando. Os byddwch yn **gwasgu 55**, byddant yn cael eu hysbysu ac yn trosglwyddo’r alwad i'r heddlu. Os na wasgwch 55 bydd yr alwad yn cael ei therfynu. Nid yw gwasgu 55 yn galluogi'r heddlu i olrhain eich lleoliad.

## BETH NESAF?

Pan fyddwch yn cael eich trosglwyddo i’ch heddlu lleol, bydd y sawl sy'n delio â’r alwad i'r heddlu yn ceisio cyfathrebu gyda chi trwy ofyn cwestiynau ie neu na syml. Os na allwch siarad, gwrandewch yn ofalus i’r cwestiynau a chyfarwyddiadau gan y sawl sy'n delio â’r alwad fel y gall asesu eich galwad a threfnu help os oes angen.

## OS FFONIWCH 999 O FFÔN LLINELL TIR

Gan ei bod yn llai tebygol fod galwadau 999 wedi eu gwneud yn ddamweiniol o linellau tir, ni ddefnyddir y system Ateb Tawel.

Os, wrth dderbyn galwad frys ar linell tir:
- nad oes cais am wasanaeth brys
- nad yw'r galwr yn ateb cwestiynau
- gellir clywed sŵn cefndir yn unig ac nad yw’r cysylltwyr BT yn gallu penderfynu a oes angen gwasanaethau brys,

yna byddwch yn cael eich cysylltu i rywun sy'n delio â galwadau i’r heddlu gan fod amheuaeth yn bodoli.

Os byddwch yn rhoi’r ffôn i lawr, gallai'r llinell tir barhau i fod wedi ei chysylltu am 45 eiliad rhag ofn eich bod yn ei godi eto.

Os byddwch chi'n codi'r ffôn eto yn ystod y 45 eiliad yma ac mae’r cysylltydd BT yn poeni am eich diogelwch, bydd yr alwad yn cael ei chysylltu i'r heddlu.

Pan wneir galwadau 999 o linellau tir, dylai gwybodaeth am o ble ydych chi'n ffonio fod ar gael ar unwaith i’r rhai sy'n delio â galwadau i helpu darparu ymateb.

#CaelEichClywed
#AtebTawel
www.policeconduct.gov.uk

NPCC National Police Chiefs' Council

women's aid
until women & children are safe